# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 22 Ionawr 2014**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(174)v2

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 14.13

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 1, 7, 9, 10 a 12 eu grwpio.

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

### 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.3 i addasu cylch gwaith a theitlau pwyllgorau

Dechreuodd yr eitem am 14.57

**NDM5403 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3, yn cytuno i:

1. newid cylch gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i gynnwys Addysg Uwch;

2. newid teitl y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg;

3. trosglwyddo twristiaeth o gylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i gylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes.

Mae cynigion y Pwyllgor Busnes i'w gweld yn yr adroddiad 'Portffolios a Chyfrifoldebau'r Pwyllgorau yn y Pedwerydd Cynulliad' a osodwyd ar 15 Ionawr 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr Ymchwiliad i Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc

Dechreuodd yr eitem am 14.57

**NDM5404 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr Ymchwiliad i Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.44

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5407 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi llifogydd a difrod mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014 sydd wedi effeithio ar bobl a chymunedau ledled Cymru.

2. Yn cydnabod gwaith rhagorol y gwasanaethau a'r sefydliadau brys o ran darparu cefnogaeth a chymorth i'r cymunedau hynny.

3. Yn credu y dylai'r defnydd deuol posibl o brosiectau ynni adnewyddadwy lleol gael ei ystyried o ran darparu amddiffynfeydd môr pellach.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) mynd ati ar unwaith i adolygu Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd;

b) datblygu ac ail-lansio'r cynllun grant a dreialwyd yn 2010/11 i ddarparu cyllid i'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd i wneud eu cartrefi'n fwy diogel rhag llifogydd;

c) cyhoeddi adroddiadau ymchwiliad Cyfoeth Naturiol Cymru i'r llifogydd diweddar, ar ôl eu cwblhau.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 31 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn canmol gwirfoddolwyr lleol ar hyd a lled Cymru am eu hymroddiad yn ystod y broses lanhau ac adfer.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu is-bwyntiau 4a a 4b a rhoi yn eu lle:

parhau â'i dull a ddisgrifir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a'r buddsoddiad o £240 miliwn i ddelio â llifogydd yn ystod tymor y Llywodraeth hon.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 4a newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch y camau y mae wedi'u cymryd i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd i gynorthwyo gyda'r costau yn sgîl gwaith atgyweirio.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 4a newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

ymgysylltu'n gadarnhaol â phartneriaid perthnasol i sicrhau agwedd bragmatig tuag at geisiadau gan fusnesau a thai i ôl-ffitio eiddo at ddibenion gwella mesurau atal llifogydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 4a newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd i ddefnyddio gwybodaeth leol a thechnegau rheoli tir arloesol i wneud mwy o ddefnydd o adnoddau naturiol i leihau effaith llifogydd, a chymryd camau i sicrhau bod cynrychiolwyr yn gwella eu sgiliau'n briodol er mwyn gwella'r gallu i wrthsefyll llifogydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 4a newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

annog adolygiad o'r polisi clirio afonydd yng Nghymru cyn gynted â phosibl, er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

'sefydlu Fforwm Llifogydd Cenedlaethol i Gymru'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

'cyfrifo'r gost ychwanegol i lywodraeth leol a sefydliadau cyhoeddus eraill yn sgîl y stormydd diweddar, ac ystyried ar unwaith yr angen i wneud cais am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU neu'r Undeb Ewropeaidd i helpu i ysgwyddo'r baich ariannol'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 8.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**
**NDM5407 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi llifogydd a difrod mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014 sydd wedi effeithio ar bobl a chymunedau ledled Cymru.

2. Yn cydnabod gwaith rhagorol y gwasanaethau a’r sefydliadau brys o ran darparu cefnogaeth a chymorth i'r cymunedau hynny.

3. Yn canmol gwirfoddolwyr lleol ar hyd a lled Cymru am eu hymroddiad yn ystod y broses lanhau ac adfer.

4. Yn credu y dylai'r defnydd deuol posibl o brosiectau ynni adnewyddadwy lleol gael ei ystyried o ran darparu amddiffynfeydd môr pellach.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) annog adolygiad o’r polisi clirio afonydd yng Nghymru cyn gynted â phosibl, er mwyn lleihau’r perygl o lifogydd.

b) amlinellu’r camau sy’n cael eu cymryd i ddefnyddio gwybodaeth leol a thechnegau rheoli tir arloesol i wneud mwy o ddefnydd o adnoddau naturiol i leihau effaith llifogydd, a chymryd camau i sicrhau bod cynrychiolwyr yn gwella eu sgiliau’n briodol er mwyn gwella’r gallu i wrthsefyll llifogydd.

c) ymgysylltu’n gadarnhaol â phartneriaid perthnasol i sicrhau agwedd bragmatig tuag at geisiadau gan fusnesau a thai i ôl-ffitio eiddo at ddibenion gwella mesurau atal llifogydd.

d) cyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch y camau y mae wedi'u cymryd i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd i gynorthwyo gyda’r costau yn sgîl gwaith atgyweirio.

e) mynd ati ar unwaith i adolygu Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd;

f) datblygu ac ail-lansio'r cynllun grant a dreialwyd yn 2010/11 i ddarparu cyllid i'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd i wneud eu cartrefi'n fwy diogel rhag llifogydd;

g) cyhoeddi adroddiadau ymchwiliad Cyfoeth Naturiol Cymru i'r llifogydd diweddar, ar ôl eu cwblhau;

h) sefydlu Fforwm Llifogydd Cenedlaethol i Gymru;

i) cyfrifo'r gost ychwanegol i lywodraeth leol a sefydliadau cyhoeddus eraill yn sgîl y stormydd diweddar, ac ystyried ar unwaith yr angen i wneud cais am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU neu'r Undeb Ewropeaidd i helpu i ysgwyddo'r baich ariannol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig fel y'i diwygiwyd. Felly, gwrthodwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 7 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.46

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5405 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod dros flwyddyn wedi mynd heibio ers cyhoeddi ffigurau cyfrifiad 2011 sy'n dangos bod gostyngiad o 2 y cant yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu er mwyn galluogi'r Gymraeg i ffynnu drwy, ymysg pethau eraill:

a) sicrhau bod gan bawb yng Nghymru'r cyfle i ddysgu Cymraeg;

b) buddsoddi mewn gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg;

c) cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg;

d) defnyddio’r potensial o dan Fesur y Gymraeg 2011 i osod safonau ar gyfer y Gymraeg sy’n rhoi hawliau cryfach i siaradwyr Cymraeg na chynlluniau iaith o dan Ddeddf Iaith 1993;

e) annog cyrff cyhoeddus i ddefnyddio’r Gymraeg fel iaith weinyddol yn fewnol;

f) creu cyfleoedd economaidd a swyddi yng nghadarnleoedd y Gymraeg drwy hybu datblygiad Bangor a Menai, Aberystwyth a Chaerfyrddin fel dinas-ranbarthau;

g) sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chymryd o ddifrif yn y system gynllunio.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 43 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi methiannau Llywodraeth Cymru o ran bodloni’r safonau yn llawn wrth hybu’r defnydd o ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol mewn bywyd cyhoeddus, fel y nodir yn Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ‘yn effeithiol’ ar ddiwedd is-bwynt 2a.
Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 14 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 2f a rhoi yn ei le:

cefnogi cadarnleoedd y Gymraeg yng ngorllewin Cymru drwy ddatblygu strategaeth economaidd ar gyfer yr ardaloedd hyn, sy’n adlewyrchu eu cymeriad ac sydd wedi’u teilwra’n unol â'u hanghenion

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 0 | 21 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gan fod gwelliant 3 wedi’i dderbyn, cafodd gwelliant 4 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

manteisio ar y cyllid ychwanegol ar gyfer Dechrau'n Deg i wella’r broses o hyrwyddo'r Gymraeg ymysg plant ifanc a'u teuluoedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

gweithio gydag oedolion sy’n dysgu Cymraeg er mwyn creu cyfleoedd i siarad Cymraeg yn eu cymunedau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

rhoi sylw i’r anawsterau a wynebwyd yn lleol o ran derbyn darllediadau yn y Gymraeg ers newid i’r digidol ar gyfer teledu yn 2010.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

rhoi sylw i’r gwendidau yn narpariaeth Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 8.**

**Gwelliant 9 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

sicrhau y caiff Comisiynydd y Gymraeg ei benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 35 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Gwelliant 10 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

sicrhau bod Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg yn gadarn ac yn cynnwys mesurau y mae modd eu cyflawni i gwrdd â’r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac i sicrhau dilyniant rhwng yr addysg gynradd ac uwchradd a gynigir.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 10.**

**Gwelliant 11 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

sicrhau bod unrhyw werthusiad o'r rhaglen Dechrau'n Deg yn rhoi sylw i'r ddarpariaeth Gymraeg.
Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 11:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 11.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**
**NDM5405 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod dros flwyddyn wedi mynd heibio ers cyhoeddi ffigurau cyfrifiad 2011 sy'n dangos bod gostyngiad o 2 y cant yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu er mwyn galluogi'r Gymraeg i ffynnu drwy, ymysg pethau eraill:

a) sicrhau bod gan bawb yng Nghymru'r cyfle i ddysgu Cymraeg yn effeithiol;

b) buddsoddi mewn gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg;

c) cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg;

d) defnyddio'r potensial o dan Fesur y Gymraeg 2011 i osod safonau ar gyfer y Gymraeg sy'n rhoi hawliau cryfach i siaradwyr Cymraeg na chynlluniau iaith o dan Ddeddf Iaith 1993;

e) annog cyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith weinyddol yn fewnol;

f) cefnogi cadarnleoedd y Gymraeg yng ngorllewin Cymru drwy ddatblygu strategaeth economaidd ar gyfer yr ardaloedd hyn, sy'n adlewyrchu eu cymeriad ac sydd wedi'u teilwra'n unol â'u hanghenion;

g) sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chymryd o ddifrif yn y system gynllunio;

h) manteisio ar y cyllid ychwanegol ar gyfer Dechrau'n Deg i wella'r broses o hyrwyddo'r Gymraeg ymysg plant ifanc a'u teuluoedd;

i) gweithio gydag oedolion sy'n dysgu Cymraeg er mwyn creu cyfleoedd i siarad Cymraeg yn eu cymunedau;

j) rhoi sylw i'r anawsterau a wynebwyd yn lleol o ran derbyn darllediadau yn y Gymraeg ers newid i'r digidol ar gyfer teledu yn 2010;

k) rhoi sylw i'r gwendidau yn narpariaeth Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion;

l) sicrhau bod Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg yn gadarn ac yn cynnwys mesurau y mae modd eu cyflawni i gwrdd â'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac i sicrhau dilyniant rhwng yr addysg gynradd ac uwchradd a gynigir;

m) sicrhau bod unrhyw werthusiad o'r rhaglen Dechrau'n Deg yn rhoi sylw i'r ddarpariaeth Gymraeg.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 12 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**CYFNOD PLEIDLEISIO**

Dechreuodd yr eitem am 17.39

**Crynodeb o Bleidleisiau**

**8 Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17.49

**NDM5406 Leanne Wood (Canol De Cymru):**

Y dechrau gorau mewn bywyd: Dyhead gwirioneddol i bawb?

Yr angen i sicrhau cyfle cyfartal i deuluoedd difreintiedig fanteisio ar ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:09

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 28 Ionawr 2014**